**EITEM AR YR AGENDA : 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Hydref 2009**

## PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried trefniadau ar gyfer llenwi lleoedd gwag ar y Pwyllgor Safonau.

## Cyflwyniad

2 Yn y cyfarfod blynyddol ym Mehefin 2009, cafodd yr Aelodau wybod bod cyfnod swyddi dau aelod annibynnol yn dod i ben ym Medi 2009, a chytunwyd i hysbysebu am ddau aelod annibynnol newydd.

3 Rhoddwyd hysbyseb yn y Daily Post ar y 7fed o Fedi, yn ogystal ag ar jobswales.co.uk a gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gyda'r 28ain o Fedi fel dyddiad cau. Daeth pum cais i law.

4 Nawr, mae angen cynnull panel ymgynghorol gyda heb fod yn fwy na phum aelod, gydag un ohonynt i fod yn aelod annibynnol lleyg o'r panel. Yna, bydd y panel ymgynghorol yn ystyried y ceisiadau ac yn gwneud argymhelliad i'r Awdurdod ynghlŷn â phwy y dylid ei b/phenodi. Er mwyn symleiddio'r broses gan fod bwlch rhwng cyfarfodydd llawn o'r Awdurdod Tân, rwy'n cynnig isod y dylid dirprwy'r gorchwyl o benodi aelod lleyg o'r panel i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a minnau.

5 Cyfnod yr aelodau newydd yn y swydd fydd pedair blynedd.

**Argymhellion**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) enwebu pedwar aelod o'r Awdurdod i'w penodi i'r panel ymgynghorol; a

(ii) chytuno y dylid diprwyo'r gorchwyl o benodi aelod lleyg o'r panel i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.